



Cyngor Cymuned Pennal

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
E bost: huwjones792@btinternet.com Ffôn: 07974795778

12fed o Fai 2023

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED PENNAL Nos Wener y 19eg o Fai am 6.00pm yn y Ganolfan , Pennal.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y 28ain o Fawrth 2023 – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Draeniau yn y pentref
 - b) Mynwent yr Eglwys
 - c) Binau baw cwn
 - d) Llinellau ar y ffordd - Maes parcio Cwrt
 - e) Carafannau static
5. **Ethol Swyddogion 2023-24.**
 - a) Cadeirydd
 - b) Is- Gadeirydd

c) Clerc.

6. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Pennal ar gyfer 2023/24.

7. Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannau wedi eu cwblhau gan Gyngorwyr (i'w dosbarthu ar y noson). Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog a'r asesiad risg (eto i'w dosbarthu ar y noson). Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

8. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol .

9. Materion Cynllunio

10.Materion Cyllid.

a) Cyflwyno cyfrifon 2022-23 sydd wedi eu paratoi ac angen eu danfon i'r archwilydd mewnol.

b)Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant a chadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2023-24 – cyfanswm £475.01

c) Nodi derbyn rhan gyntaf y praesept am 2023-24, sef £7,500. Nodi balansau y cyfrifon, gyda chyfeiriad at gyllideb 2023-24. Hefyd cadarnhau rhestr asedau.

d) Cydnabyddiaeth/costau sy'n ddyledus i'r cyn Glerc Deilwen Breese o flwyddyn 2022-23.

e) Cyfraniadau yn lleol – Ysgol Pennal (cytunwyd ar swm o £500 yn y cyfarfod diwethaf.

11.Gohebiaeth

Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri – webinar Dydd Iau 8fed Mehefin dros zoom – gwahoddiad i 2 gynrychiolydd o'r Cyngor

12. Unrhyw fater arall